

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel

<http://senedd.tv/cy/6457>

Dyddiad: Dydd Llun, 28 Medi 2020

Amser: 09.32 – 12.01

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AS (Cadeirydd) Gareth Bennett AS Angela Burns AS Vikki Howells AS Delyth Jewell AS Jenny Rathbone AS
Tystion:	Andrew Slade, Llywodraeth Cymru Simon Jones, Llywodraeth Cymru Andy Falleyn, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Adrian Crompton Matthew Mortlock Stephen Lisle Nick Selwyn Fay Bowen (Clerc) Tom Lewis-White (Ail Clerc) Claire Griffiths (Dirprwy Clerc)



1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
- 1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

2a Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (9 Medi 2020)

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papur a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn anfon y llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gofyn am gadw golwg ar y materion sydd wedi'u cynnwys yn y llythyr.

3 Effeithlonrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

- 3.1 Ystyriodd a nododd yr Aelodau Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor.
- 3.2 Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ymrwymadau cliriach, amserlenni priodol a chyfres o gamau mesuradwy mewn perthynas ag Argymhellion 5, 6 a 7.

4 Gwella Ffordd yr A465 – Adran 2 Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

- 4.1 Holodd y Pwyllgor y tystion ar wella ffordd yr A465 – Adran 2.
- 4.2 Cytunodd Llywodraeth Cymru i anfon manylion pellach am nifer o faterion a godwyd.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

- 5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Gwella Ffordd yr A465 – Adran 2 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.